# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Cwmbrân**

**Y Pwerdy**
**Heol Blenheim Sain Derfel**
**Cwmbrân**
**NP44 4SY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/04/2023

# Cylch Meithrin Cwmbrân

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Cwmbrân |
| Lleoedd cofrestredig | 13 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn cael cyfleoedd i chwarae a dysgu mewn lleoliad magwrus a gofalgar. Maent yn cael cyfleoedd i feithrin eu sgiliau drwy amrywiaeth o brofiadau a chwarae o ansawdd. Mae'r plant yn ffurfio cysylltiadau agos â'i gilydd a'r staff.

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu manwl ar waith. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r staff yn parchu ei gilydd ac yn parchu'r plant yn eu gofal. Maent yn cadw ychydig o gofnodion o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn groesawgar ac mewn cyflwr da. Mae'r dodrefn, teganau ac adnoddau ansawdd uchel dan do yn hyrwyddo chwarae a datblygiad y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a'i fod yn hyrwyddo iechyd a llesiant y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn wael. Mae angen rhoi ychydig o sylw i sicrhau bod gofynion Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd Cymru (2010) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu bodloni. Rydym wedi cyhoeddi tri Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth oherwydd y canfyddiadau yn yr arolygiad, ac mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Caiff lleisiau’r plant ei glywed yn y lleoliad hwn. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad a gallant ddewis beth maent am ei chwarae o amrywiaeth digonol o adnoddau a theganau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, dewisodd y plant rhwng y pwll tywod a'r gornel chwarae rôl. Mae'r plant yn mynd at y staff a mynegi eu meddyliau a'u syniadau, gan eu bod yn gwybod y caiff eu holl ymdrechion i gyfathrebu eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, bu'r plant yn trafod pam nad oeddent yn hoffi'r wyneb trist ar gwpan yfed.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Gwnaethant ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni/gofalwyr. Maent wedi ffurfio cydberthnasau cadarnhaol gyda'i gilydd a chyda'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn gyfarwydd ag arferion dyddiol y lleoliad y maent yn eu mwynhau ac sy'n ychwanegu at eu hymdeimlad o ddiogelwch ac o berthyn. Er enghraifft, mae'r plant yn gwybod i wisgo eu cotiau ar ôl iddynt olchi eu dwylo, wrth baratoi ar gyfer cael eu casglu a thacluso wrth baratoi ar gyfer amser byrbryd.

Mae'r plant yn y lleoliad yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad sy'n berthnasol i'w hoedran er mwyn cwblhau tasgau.  Maent yn ymgysylltu'n dda â'r staff ac yn barod i siarad am eu teimladau a'u gofynion personol. Er enghraifft, siarad am yr hyn sy'n eu bocsys byrbryd, lliwiau amrywiol blatiau a bwyd a gofyn am fwy o fyrbryd. Mae gan y plant iau ddealltwriaeth dda o'u teimladau eu hunain. Maent hefyd yn dod yn sensitif i emosiynau pobl eraill. Er enghraifft, wrth chwarae yn y pwll tywod, roedd pob plentyn yn rhannu'r adnoddau ac yn aros eu tro'n amyneddgar.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Mae dewis priodol o adnoddau ar gael iddynt yn y lleoliad, sy'n berthnasol i'w hoedran. Gwelsom y plant yn mwynhau cyfnod chwarae rhydd. Er enghraifft, roedd y plant yn ymgysylltu'n dda â datrys jig-so a chwarae yn y tywod a'r dŵr.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Maent yn arllwys eu diodydd eu hunain yn ystod amser byrbryd ac yn gwisgo eu cotiau ar ddiwedd y sesiwn. Mae'r plant yn dechrau dysgu sut i reoli eu hanghenion iechyd a hylendid eu hunain. Er enghraifft, gwelsom y plant yn golchi eu dwylo'n annibynnol yn barod ar gyfer amser byrbryd ac ar ôl chwarae yn y pwll tywod.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y lleoliad. Maent yn fedrus wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo lles y plant, gan gynnwys polisi diogelu trylwyr. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gymwys o ran eu rôl wrth ddiogelu'r plant. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau diogelu'r lleoliad drwy gwblhau'r gwaith papur perthnasol a rhoi gwybod amdano er mwyn hyrwyddo diogelwch y plant. Mae gan y staff ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gadarn o anghenion iechyd y plant, gan gynnwys alergeddau, gofynion deietegol ac anghenion meddygol. Mae'r staff yn cwblhau'r gwaith papur sy'n berthnasol i ddamweiniau a digwyddiadau a chaiff ffurflenni cofrestru'r plant eu cwblhau. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser wedi'u llofnodi a'u dyddio gan staff a rhieni. Ar hyn o bryd ni chaiff ffurflenni damweiniau a digwyddiadau eu harchwilio i nodi tueddiadau a pheryglon posibl o amgylch y lleoliad. Mae'r staff yn darllen polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn glynu wrthynt yn ddyddiol.

Mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cymdeithasol y plant, gan ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r staff yn fodelau rôl addas ar gyfer y plant yn eu gofal, ac yn eu trin nhw a'i gilydd gyda gofal, parch a charedigrwydd. Mae'r staff yn dangos diddordeb yng nghyflawniadau chwarae'r plant ac maent yn frwdfrydig pan fydd plentyn yn ateb cwestiwn am y tywydd. Gofynnodd aelod o'r staff i'r plant '*sut mae'r tywydd heddiw? Ydy hi'n heulog?*' (*how's the weather today? Is it sunny?*) ac atebodd plentyn yn frwdfrydig drwy ddweud '*ydy*' (*yes, it is*). Canmolodd yr aelod o'r staff y plentyn yn gyffrous a gwenodd y plentyn, yn falch.

Mae'r staff yn garedig ac yn gefnogol tuag at ei gilydd a'r plant. Mae ganddynt system foddhaol ar waith ar gyfer cofnodi datblygiad y plant. Fodd bynnag, nid yw pob cofnod arsylwi wedi'i ddyddio, ac ar hyn o bryd nid oes gwaith cynllunio ar waith ar gyfer y camau nesaf o ran dysgu'r plant. Gwelsom y plant yn ymgysylltu mewn cyfnod chwarae rhydd yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw waith cynllunio na gwerthusiadau ffurfiol ar waith. Roedd y defnydd o'r Gymraeg yn dda drwy'r lleoliad.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae Cylch Meithrin Cwmbrân wedi'i leoli mewn ystafell gofal plant mewn canolfan deuluol. Ni chaiff unrhyw ymwelwyr heb awdurdod fynd i mewn i'r lleoliad heb fewngofnodi wrth y brif fynedfa ac wrth gyrraedd yr ystafell gofal plant. Mae pob drws allanol yn yr ystafell gofal plant wedi'i gloi. Mae'r arweinwyr yn cyflawni asesiadau risg priodol ar gyfer yr ardal a'r adnoddau yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod gwiriadau a thystysgrifau diogelwch arferol ar waith ar gyfer yr adeilad a'r dyfeisiau. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru â'r adran diogelwch bwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a bod y tystysgrifau yswiriant yn gyfredol.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'r addurn tawel a naturiol yn rhoi ymdeimlad cartrefol i'r lleoliad. Mae'r ystafell gofal plant yn fawr ac yn olau sy'n rhoi rhyddid i'r plant symud o gwmpas wrth iddynt chwarae. Mae'r ystafell wedi'i threfnu'n dda, a dywedodd y staff wrthym eu bod wedi newid trefn yr ystafell yn ddiweddar er budd ymgysylltiad y plant. Mae nifer priodol o doiledau i blant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres. Mae sebon hylif a chyfleusterau sychu dwylo ar gael yn rhwydd er mwyn cefnogi annibyniaeth y plant wrth fynd i'r afael â'u gofal personol.

Mae amrywiaeth o adnoddau y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Cânt eu storio ar ddodrefn lefel isel ac maent yn annog y plant i ddatblygu eu sgiliau. Er enghraifft, blociau adeiladu, offerynnau cerddorol ac ardal chwarae rôl ar gyfer datblygiad creadigol, gwneud marciau ar gyfer datblygiad corfforol ac ardal lyfrau ar gyfer eu datblygiad iaith cynnar. Mae ardal awyr agored y gellir mynd ati yn uniongyrchol o'r ystafell gofal plant. Nid oedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio yn ystod yr arolygiad. Dywedodd arweinydd y lleoliad wrthym eu bod wedi cael grant yn ddiweddar i ddatblygu'r ardal ymhellach, a bydd y gwaith hwn yn dechrau'n fuan. Mae'r plant yn ymwybodol o rai diwylliannau a dathliadau. Er enghraifft, gwelsom faneri o wahanol wledydd yn cael eu harddangos a chrefft Pasg wedi'i gwblhau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Gwael

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn wael. Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi ymarfer gweithdrefnau recriwtio diogel am nad oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol  O ganlyniad, mae AGC wedi cyhoeddi Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth mewn perthynas â'r methiannau rheoleiddio hyn a byddant yn profi a ydynt wedi cydymffurfio a gwella yn yr arolygiad â blaenoriaeth nesaf.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd. Dangosodd ffeiliau'r staff a welsom na chynhelir sesiynau goruchwylio nac arfarniadau â'r staff er mwyn gwirio arferion gweithio'r staff, nodi eu hanghenion hyfforddi neu i drafod unrhyw faterion diogelu. Mae hwn yn Faes i'w Wella, yr eir i'r afael ag ef yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i roi gwybod i AGC am faterion penodol. Fodd bynnag, ni roddwyd gwybodaeth bwysig ynghylch newidiadau i staff a diweddariadau o ddatganiadau o ddiben bob amser yn unol â'r rheoliadau. Felly mae Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth wedi cael ei gyhoeddi mewn perthynas â'r mater hwn.

Mae'r Person â Chyfrifoldeb yn newydd i'r rôl ac wedi rhoi sicrwydd i ni fod ganddi weledigaeth ar gyfer dyfodol y gwasanaeth. Ers yr arolygiad, dywedodd ei bod hi a'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau y caiff yr Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth eu gweithredu ar unwaith. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei bod yn dechrau meithrin cydberthnasau ag asiantaethau o'r awdurdod lleol megis Dechrau’n Deg, yn ogystal â chydberthnasau â rhieni.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol sy'n eu galluogi i gefnogi anghenion y plant yn effeithiol. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn wedi'i chynnwys yn ffeiliau'r staff a'i bod ar gael mewn perthynas ag addasrwydd y staff. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Mae'r Person Cofrestredig wedi methu â hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys mewn modd amserol. Mae hyn yn ymwneud â newidiadau staff yn y gwasanaeth. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod y rheini a'r staff yn llofnodi ac yn dyddio pob ffurflen, gan gynnwys ffurflenni damweiniau, ffurflenni digwyddiadau a ffurflenni cofrestru'r plant. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod y gwaith cynllunio a'r gwerthusiadau wedi'u cwblhau ac y ceir cefnogaeth gan yr awdurdodau perthnasol. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod yr arsylwadau yn cefnogi'r gwaith o gynllunio'r camau nesaf o ran dysgu'r plant ac y caiff yr arsylwadau eu dyddio'n gyson. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|

| Argymhelliad/argymhellion |
| --- |
| Sicrhau y caiff ffurflenni damweiniau a digwyddiadau eu harchwilio i nodi tueddiadau a pheryglon posibl yn y lleoliad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 21/07/2023